O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 2244 (Cy. 249)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Ffin Sirol Powys a Swydd Amwythig ger Treberfedd i Gylchfan Tal-y-bont, Y Trallwng, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed 29 Awst 2012

Yn dod i rym 4 Medi 2012

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Amwythig – Dolgellau (yr A458) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall **(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Medi 2012 ac enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Ffin Sirol Powys a Swydd Amwythig ger Treberfedd i Gylchfan Tal-y-bont, Y Trallwng, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 4 Medi 2012 ac a ddaw i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn derfynol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o Gefnffordd yr A458 rhwng ffin sirol Powys a Swydd Amwythig ger Treberfedd a Chylchfan Tal-y-bont, Y Trallwng yn Sir Powys, a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn cyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff unrhyw berson, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff unrhyw berson, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 30 milltir yr awr yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff unrhyw berson, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff unrhyw berson, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd, na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio, yn y fath fodd ag y bo'n goddiweddyd unrhyw gerbyd arall yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen, yn ystod yr adegau y bydd y cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 mewn grym.

7. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y cyfeirir atynt yno yn weithredol.

8. Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 12 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog
Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 29 Awst 2012

Richard Morgan

RICHARD MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy o ran Cymru gan Weinidogion Cymru.

YR ATODLEN

Ffin Sirol Powys-Swydd Amwythig i Hill Farm

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt ar ffin sirol Powys-Swydd Amwythig i'r dwyrain o Dreberfedd hyd at ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo a elwir Hill Farm.

U2252 i Bont Reilffordd Cefn

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r U2252 hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r U2248.

Lower Cefn i Dal-y-Bont

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo a elwir Lower Cefn hyd at fynedfa ac allanfa dwyreiniol cylchfan yr A 483 yn Nhal-y-bont.